Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canllawiau

## Contractau Cyfleustodau

Rhagfyr 2024

© Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG50130, ISBN digidol 978-1-83715-139-4
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Canllawiau: Contractau Cyfleustodau

## Beth yw cyfleustodau a chontractau cyfleustodau?

1. Mae cyfleustodau yn awdurdodau cyhoeddus, yn ymgymeriadau cyhoeddus neu'n endidau eraill (cyfleustodau preifat) sy'n cyflawni gweithgareddau cyfleustod yn y sector ynni, y sector dŵr a'r sector trafnidiaeth. Maent yn cael eu rheoleiddio gan Ddeddf Caffael 2023 (y Ddeddf) wrth gyflawni gweithgareddau cyfleustod gan nad ydynt yn agored i rymoedd cystadleuol yn y farchnad (gweler adran 6(5) a 6(6) o'r Ddeddf) a'i bod yn ofynnol i'r DU, o dan wahanol gytundebau rhyngwladol, ganiatáu i gyflenwyr gwladwriaeth gytuniad â hawliau penodol o dan gytundebau rhyngwladol perthnasol gymryd rhan mewn caffaeliadau ar gyfer contractau cyfleustodau.

## Beth yw'r fframwaith cyfreithiol sy'n llywodraethu contractau cyfleustodau?

2. Ceir y rheolau sy'n llywodraethu caffael cyfleustodau yn y DU yn y Ddeddf ac maent yn disodli Rheoliadau Contractau Cyfleustodau 2016 (Rheoliadau 2016) sydd wedi cael eu diddymu. Diffinnir gweithgareddau cyfleustod a chontractau cyfleustodau yn adran 6, a chyfleustodau yn adran 35 o'r Ddeddf.

3. Fel arfer, mae awdurdodau contractio sy'n dyfarnu contractau cyfleustodau yn cael eu llywodraethu gan y darpariaethau yn y Ddeddf yn union fel unrhyw awdurdod contractio arall. Mae'r canllaw hwn yn rhoi trosolwg o'r darpariaethau penodol yn y Ddeddf sy'n ymwneud â chyfleustodau.

4. Dylid ei ddarllen ochr yn ochr â chanllawiau eraill ar y Ddeddf sy'n gymwys i bob awdurdod contractio ac a fydd yn gymwys i gyfleustodau, oni nodir yn wahanol.

5. Y rheol gyffredinol yw y bydd y Ddeddf yn gymwys i gyfleustodau yn yr un ffordd ag y mae'n gymwys i awdurdodau contractio eraill. Fodd bynnag, ceir eithriadau i'r rheol gyffredinol ac mae rhai darpariaethau penodol yn rhoi hyblygrwydd ychwanegol i gyfleustodau. Mewn rhai achosion, mae'r darpariaethau hyn yn gymwys i bob cyfleustod ac mewn achosion eraill dim ond i fathau penodol o gyfleustodau, e.e. cyfleustodau preifat, y maent yn gymwys. Nodir y rhain yn Atodiad A.

6. Bydd rhai contractau cymysg yn cynnwys elfennau a fyddai, petaent yn cael eu caffael ar wahân, yn ddarostyngedig i reolau arbennig, megis y rhai sy'n gymwys i gontractau cyfleustodau. Mae adran 10 o'r Ddeddf yn darparu ar gyfer pryd y dylai'r contractau hynny gael eu trin yn unol â'r rheolau sy'n adlewyrchu natur

arbennig un elfen (h.y. pryd y dylid eu trin fel contract cyfundrefn arbennig fel y'i diffiniwyd yn adran 10), neu pryd y dylid eu trin fel contractau sy'n ddarostyngedig i'r rheolau safonol yn y Ddeddf.

## Beth sydd wedi newid?

7. Er bod contractau cyfleustodau yn arfer cael eu rheoleiddio ar wahân (o dan Reoliadau 2016), mae'r Ddeddf yn rheoleiddio contractau cyfleustodau a mathau eraill o gontractau. Mae'r broses gydgrynhoi hon yn lleihau deddfwriaeth ym maes caffael yn gyffredinol ac yn symleiddio'r rheolau i awdurdodau contractio.

8. Mae Atodlen 4 i'r Ddeddf yn nodi'r gweithgareddau cyfleustod a gwmpesir gan y Ddeddf ac yn cyd-fynd â chwmpas gweithgareddau cyfleustod a oedd yn cael eu cwmpasu gan y ddeddfwriaeth flaenorol, ac eithrio gwasanaethau post nad ydynt yn cael eu rheoleiddio o dan y Ddeddf.

9. Mae'r esemptiadau yn Rhan 2 o Atodlen 4 yn adlewyrchu'r esemptiadau a nodir mewn tri o Benderfyniadau Comisiwn yr UE, sef:
    - 2006/211/EC,
    - 2007/141/EC, a
    - 2010/192/EU

10. Mae'r darpariaethau penodol ynglŷn â chyfleustodau yn rhoi hyblygrwydd i gyfleustodau sy'n adlewyrchu eu natur fasnachol. Yn benodol, bydd marchnad ddynamig cyfleustodau a sefydlir o dan hysbysiad marchnad ddynamig cyfleustodau cymhwysol yn disodli systemau cymhwyso yn Rheoliadau 2016 er mwyn cyflymu prosesau caffael cyfleustodau.

11. Cyfleustodau yw'r un mathau o gyrff o dan y Ddeddf ag a oedd yn cael eu cwmpasu o dan Reoliadau 2016.

12. O ran y diffiniad o ymgymeriad cyhoeddus, mae'r gofyniad penodol sy'n ymwneud â gweithredu ar sail fasnachol yn adran 2(2)(b) o'r Ddeddf yn newid o'r rheoliadau contractau cyfleustodau lle mae gofyniad yn ymwneud â rheolaeth (dylanwad trech), ond nid oes unrhyw ofyniad penodol bod yr endid yn gweithredu'n fasnachol, er bod llawer yn gwneud hynny.

13. Gallai ychwanegu'r gofyniad hwn sy'n ymwneud â gweithredu ar sail fasnachol olygu y gallai rhai cyrff a oedd yn cael eu hystyried yn ymgymeriadau cyhoeddus yn y rheoliadau contractau cyfleustodau, gael eu hystyried yn awdurdodau cyhoeddus o dan y Ddeddf. Nid yw'r ymarfer ailgategoreiddio hwn yn cael unrhyw effaith ymarferol, ar y cyfan, am fod y rheolau ar gyfer awdurdodau cyhoeddus ac ymgymeriadau cyhoeddus yn y Ddeddf yn debyg. Nodir y gwahaniaethau yn Atodiad A.

## Pwyntiau allweddol a bwriad polisi

### Cymhwyso

14. Mae'r darpariaethau ynglŷn â chyfleustodau yn y Ddeddf yn gymwys i gontractau cyfleustodau sy'n gontractau cyhoeddus. Mae contract cyfleustodau yn gontract cyhoeddus:

    a. pan fydd gwerth amcangyfrifedig y contract yn uwch na'r trothwyon perthnasol; a
    b. pan na fydd y contract yn gontract esempt.

### Beth yw cyfleustod?

15. Mae'r Ddeddf yn rheoleiddio ymarferion caffael cyfleustodau a gynhelir gan awdurdodau cyhoeddus, ymgymeriadau cyhoeddus a chyfleustodau preifat, y cyfeirir atynt fel cyfleustodau yn y diffiniad yn adran 35(4).

16. Mater i sefydliadau fydd penderfynu a ydynt yn awdurdod cyhoeddus, yn ymgymeriad cyhoeddus neu'n gyfleustod preifat, drwy gymhwyso'r diffiniadau yn adran 2(2) o'r Ddeddf. Nid yw'n briodol nac yn bosibl cael rhestr ddiffiniol o endidau oherwydd gall strwythurau fod yn gymhleth a newid dros amser a gall endidau adael y sector ac ymuno ag ef. Gall cyfleustodau amrywio, er enghraifft, o gwmnïau preifat sy'n gweithredu rhwydweithiau trawsyrru trydan i awdurdodau lleol sy'n berchen ar rwydweithiau gwresogi ardal.

### Awdurdodau ac ymgymeriadau cyhoeddus

17. Mae **awdurdodau cyhoeddus** yn cael eu hariannu'n gyfan gwbl neu'n bennaf drwy arian cyhoeddus neu maent yn destun goruchwyliaeth awdurdod cyhoeddus, ac (ym mhob achos) nid ydynt yn gweithredu ar sail fasnachol.

18. Mae **ymgymeriadau cyhoeddus** yn destun goruchwyliaeth awdurdod cyhoeddus ond, yn wahanol i awdurdodau cyhoeddus, maent yn gweithredu'n fasnachol.

19. Gan ystyried goruchwyliaeth awdurdod cyhoeddus a gweithredu'n fasnachol yn eu tro:

    a. Mae **goruchwyliaeth awdurdod cyhoeddus** yn gymwys yn yr un modd i awdurdodau cyhoeddus ac ymgymeriadau cyhoeddus. Mae'r Ddeddf yn diffinio goruchwyliaeth awdurdod cyhoeddus yn adran 2(3) fel bod o dan

reolaeth un awdurdod cyhoeddus neu fwy neu fwrdd y mae mwy na hanner ei aelodau wedi'u penodi gan un awdurdod cyhoeddus neu fwy.

Mae egwyddor rheoli wedi hen ymsefydlu ym maes cyfraith caffael ac yn cael ei deall ac mae'n ddigon tebyg i gyfraith cwmnïau bresennol y DU. Nid yw'r Ddeddf yn newid y dehongliad hwn.

Nid ystyrir bod rheoleiddwyr cyfleustodau, megis OFGEM ac OFWAT, wrth gyflawni eu dyletswyddau statudol, yn rheoli cyfleustod. Felly, nid yw bod yn ddarostyngedig i reoleiddwyr cyfleustodau ynddo'i hun yn ddigon i fodloni adran 2(2)(a) o'r Ddeddf ar gyfer ymgymeriadau cyhoeddus. Os bydd cyfleustod yn ateb y diffiniad o gyfleustod preifat, yna cyfleustod preifat a gwmpesir gan y Ddeddf ydyw.

b. **Gweithredu'n fasnachol** – mae ymgymeriadau cyhoeddus yn gweithredu ar sail fasnachol. Mae adran 2(4) o'r Ddeddf yn rhoi enghreifftiau o'r ffactorau y dylid eu hystyried wrth benderfynu a yw endid yn gweithredu ar sail fasnachol (nid yw'n rhestr ddiffiniol a gall fod ffactorau eraill o dan yr amgylchiadau).

### Cyfleustodau preifat

20. Mae cyfleustodau preifat yn endidau eraill (h.y. nid awdurdodau cyhoeddus nac ymgymeriadau cyhoeddus) sy'n cyflawni gweithgaredd cyfleustod. Dim ond pan roddwyd hawl arbennig neu lwyr-gyfyngedig iddynt wneud hynny y mae cyfleustodau preifat yn cyflawni gweithgareddau cyfleustod a reoleiddir o dan y Ddeddf (gweler adran 6(2)(d) o'r Ddeddf).

21. Mae adran 6(3) o'r Ddeddf yn darparu bod cyflawni gweithgaredd cyfleustod yn unol â hawl arbennig neu lwyr-gyfyngedig yn golygu bod y person yn gwneud hynny yn unol â hawl a roddwyd gan ddarpariaeth statudol, reoliadol neu weinyddol sy'n cyfyngu'n sylweddol ar allu endidau eraill (na roddwyd y cyfryw hawl iddynt) i gyflawni'r gweithgareddau hynny. Mae cyfleustodau preifat sydd â hawliau arbennig neu lwyr-gyfyngedig mewn sefyllfa fonopoli i ryw raddau, ac, felly, gallent, waeth pa mor annhebygol ydyw, heb reoleiddio, gynnig triniaeth ffafraethol, er enghraifft, sy'n ffafrio eu personau ymgysylltiedig neu eu partneriaid strategol eu hunain ac sy'n gwahaniaethu yn erbyn cyflenwyr eraill sy'n ymgynnig am eu contractau.

22. Mae adran 6(4) o'r Ddeddf yn darparu nad yw hawliau yn arbennig nac yn llwyr-gyfyngedig pan roddwyd yr hawliau hynny yn dilyn gweithdrefn dendro gystadleuol o dan y Ddeddf neu pan roddwyd cyhoeddusrwydd digonol i'r cyfle a rhoddwyd yr hawliau ar sail meini prawf gwrthrychol ac anwahaniaethol. Fodd bynnag, nid yw adran 6(4) yn gymwys os oes gan ddeiliad contract hawl

arbennig neu lwyr-gyfyngedig bresennol a gaiff ei hadnewyddu neu ei hamnewid mewn modd nad yw'n cydymffurfio â'r adran; yn yr achos hwn, bydd rhoi hawl newydd neu amnewid yr hawl yn golygu bod adran 6(3) yn gymwys a bod y cyflenwr yn gyfleustod preifat o dan y Ddeddf.

23. Yn yr un modd, pan ddyfernir contract yn dilyn gweithdrefn sy'n cydymffurfio ag adran 6(4) (boed hynny cyn neu ar ôl i'r Ddeddf ddod i rym), ond dyfernir contract newydd neu gontract amnewid yn uniongyrchol i'r deiliad contract wedyn, bydd hyn hefyd yn gyfystyr â rhoi hawl arbennig neu lwyr-gyfyngedig. Un enghraifft o hyn yw pan ddyfernir contract yn uniongyrchol i ddeiliad contract o dan reoliadau rhwymedigaethau gwasanaethau cyhoeddus (fel y'u diffiniwyd yn Atodlen 2, paragraff 21(2) o'r Ddeddf) pan oedd y contract gwreiddiol wedi'i ddyfarnu yn dilyn proses gystadleuol.

## Beth yw contract cyfleustodau?

24. Contract i gyflenwi nwyddau, gwasanaethau neu weithiau yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion gweithgaredd cyfleustod yw contract cyfleustodau.

## Beth yw gweithgareddau cyfleustod?

25. Diffinnir gweithgareddau cyfleustod yn adran 6(2) o'r Ddeddf ac maent yn weithgareddau:

   a. a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 4;
   b. nas pennir yn Rhan 2 o Atodlen 4;
   c. nas cyflawnir yn gyfan gwbl y tu allan i'r DU; a
   d. yn achos cyfleustodau preifat, a gyflawnir yn unol â hawl arbennig neu lwyr-gyfyngedig (fel y'i hesboniwyd uchod).

26. Mae Atodlen 4 i'r Ddeddf yn nodi cwmpas gweithgareddau cyfleustodau ac mae iddi ddwy ran. Mae Rhan 1 yn nodi'r gweithgareddau sy'n weithgareddau cyfleustod (ac a gwmpesir, felly, gan y Ddeddf), ac mae Rhan 2 yn nodi'r gweithgareddau nad ydynt yn weithgareddau cyfleustod (ac nas cwmpesir, felly, gan y Ddeddf). I grynhoi, mae gweithgareddau cyfleustod yn weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r canlynol:

   a. darparu neu weithredu rhwydweithiau nwy a gwres, trydan a dŵr a chyflenwi'r rhwydweithiau hynny;
   b. darparu neu weithredu rhwydweithiau trafnidiaeth gyhoeddus, porthladdoedd a meysydd awyr; neu
   c. echdynnu olew a nwy a chwilio am lo neu danwyddau solet eraill neu ei echdynnu/eu hechdynnu.

27. O dan amgylchiadau penodol, nid yw cyflenwi nwy na gwres, trydan na dŵr yfed (yn y drefn honno) yn weithgaredd cyfleustod. Gweler paragraffau:

- 1(2)(c)
- 2(2)(d), a
- 3(4)(d) o'r Ddeddf.

Er mwyn i hyn fod yn wir, mae amodau yn gymwys sy'n ei gwneud yn ofynnol i ganran y nwy neu'r gwres, y trydan a'r dŵr yfed a gyflenwir gael ei chyfrifo. Ym mhob achos, mae'r Ddeddf yn darparu y caiff awdurdod priodol, sef un o Weinidogion y Goron, Gweinidogion Cymru neu un o adrannau Gogledd Cymru) wneud rheoliadau ynglŷn â sut i gyfrifo'r ganran berthnasol.

28. Ar ôl ymgynghori, nid yw'r rheoliadau hyn wedi cael eu cynnwys yn Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024 ac, yn lle hynny, cânt eu cynnwys mewn offeryn statudol arall, y disgwylir iddo ddod yn weithredol cyn i'r Ddeddf ddod i rym. Caiff y canllaw hwn ei ddiweddaru i gynnwys y rheoliadau perthnasol.

29. Crynhoir y gweithgareddau cyfleustod a nodir yn Rhan 2 o Atodlen 4 yn Atodiad B. Caiff awdurdod priodol bennu gweithgareddau i'w cynnwys yn Rhan 2 o Atodlen 4 os ydynt yn wynebu cystadleuaeth mewn marchnadoedd agored (gweler adrannau 6(5) a 6(6) o'r Ddeddf). Effaith hyn yw na fydd y gweithgareddau penodedig hynny yn weithgareddau cyfleustod ac, felly, na chânt eu rheoleiddio gan y Ddeddf. Caiff unrhyw weithgareddau o'r fath eu nodi mewn rheoliadau a'u hychwanegu at Ran 2 o'r Ddeddf.

## Beth yw'r trothwyon ariannol ar gyfer contractau cyfleustodau?

30. Nodir symiau'r trothwyon yn Atodlen 1 i'r Ddeddf. Mae'r tabl isod yn nodi'r trothwyon ar gyfer contractau cyfleustodau sydd wedi bod yn gymwys ers 1 Ionawr 2024. Mae'r trothwyon yn y Ddeddf yn adlewyrchu'r rhai a oedd ar waith pan gafodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol a chânt eu diweddaru gan y Rheoliadau Caffael (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) cyn i'r Ddeddf ddod i rym.

| **Contract cyfleustodau** | **Trothwy** |
|---|---|
| Nwyddau | £429,809 |
| Gwasanaethau | £429,809 |
| Gweithiau | £5,372,609 |
| Cyffyrddiad ysgafn | £884,720 |

31. Mae'r trothwyon yn adlewyrchu'r trothwyon yn ein cytundebau rhyngwladol a chânt eu diwygio ar y cyntaf o fis Ionawr ym mhob blwyddyn eilrif er mwyn adlewyrchu newidiadau mewn arian cyfred a chwyddiant.

32. Nodir y rheolau ynglŷn ag amcangyfrif gwerth y contract yn Atodlen 3 i'r Ddeddf. Y brif egwyddor yw bod yn rhaid i'r amcangyfrif adlewyrchu'r cyfanswm tebygol y gallai'r awdurdod contractio ddisgwyl ei dalu o dan y contract, gan gynnwys TAW (gweler adran 123(2) o'r Ddeddf). Mae Atodlen 3 yn rhoi rhestr nad yw'n hollgynhwysfawr o'r hyn a allai fod yn berthnasol wrth amcangyfrif y swm y disgwylir iddo gael ei dalu.

## Pa esemptiadau sydd ar gael i gyfleustodau?

33. Mae Atodlen 2 i'r Ddeddf yn nodi'r mathau o gontractau esempt nad yw'r rheolau ynglŷn â chaffaeliadau a gwmpesir yn gymwys iddynt. Ar yn amod y bodlonir yr amodau perthnasol, gall pob un ohonynt gael eu defnyddio gan gyfleustodau oni nodir fel arall. Crynhoir yr esemptiadau sy'n gymwys i gyfleustodau yn benodol yn y canllaw hwn. Gweler y canllaw ar gontractau esempt am esemptiadau eraill.

## Cyd-fenter berthnasol

34. Mae Atodlen 2, paragraff 5 o'r Ddeddf yn esemptio contractau cyfleustodau a ddyfernir gan gyd-fenter berthnasol i un o aelodau'r gyd-fenter, a gan aelod o gyd-fenter i'r gyd-fenter berthnasol. Mae cyd-fenter berthnasol yn gyd-fenter a ffurfiwyd at ddibenion cyflawni gweithgaredd cyfleustod ac sy'n cynnwys aelodau sy'n gyfleustodau yn unig.

35. Caiff cyfleustodau ddod at ei gilydd i ffurfio cyd-fenter berthnasol er mwyn cyflawni gweithgaredd cyfleustod penodol, er enghraifft, gweithredu system drafnidiaeth integredig, pan fydd cyfleustodau gwahanol yn dod ag arbenigedd neu adnoddau gwahanol, er enghraifft, adnoddau/arbenigedd ariannol, technegol, marchnata neu gyflogeion. Byddai'r ddarpariaeth hon yn esemptio, er enghraifft, gontract y mae aelod-gyfleustod yn darparu gweithiau arbenigol i'r gyd-fenter berthnasol oddi tano er mwyn cyflawni'r contract. Mae hyn yn sicrhau bod y trefniadau yn parhau i fod yn ddeniadol ac yn ddichonadwy, na fyddai'n digwydd, o bosibl, petai'n ofynnol i gyfleustodau gaffael o dan y Ddeddf.

36. Mae Atodlen 2, paragraff 6 o'r Ddeddf yn esemptio contractau cyfleustodau a ddyfernir gan gyfleustod i berson sy'n ymgysylltiedig â'r cyfleustod neu gan gyfleustod sy'n gyd-fenter berthnasol i berson sy'n ymgysylltiedig ag unrhyw aelod o'r gyd-fenter honno. Gall cyfleustodau fod yn rhan o grŵp pan fydd y cyfleustod neu gwmni ar frig y strwythur (y rhiant-gwmni) yn berchen (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) ar un neu fwy o'r is-gwmnïau oddi tano.

37. Mae Atodlen 2, paragraff 6 o'r Ddeddf hefyd yn darparu bod person yn ymgysylltiedig â pherson arall os yw'r person yn dod o dan y diffiniad o ymgymeriad grŵp y person arall, fel y diffiniwyd y term hwnnw yn adran 1161(5) o [Ddeddf Cwmnïau 2006](https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/46/contents).

38. Mae hyn yn wir p'un a yw'r naill neu'r llall yn ymgymeriad fel y'i diffiniwyd yn adran 1161(1) o'r Ddeddf Cwmnïau. I grynhoi, mae cydberthynas rhwng personau ymgysylltiedig yn codi pan fo ymgymeriad arall, mewn perthynas ag ymgymeriad (A):

    a. yn rhiant-ymgymeriad neu'n is-ymgymeriad i ymgymeriad (A); neu
    b. yn is-ymgymeriad i unrhyw riant-ymgymeriad i ymgymeriad (A).

39. Diffinnir y termau is-ymgymeriad a rhiant-ymgymeriad yn adran 1162 o Ddeddf Cwmnïau. Drwy gymhwyso'r termau hynny wrth ystyried yr hyn a olygir wrth ymgymeriad grŵp o dan adran 1161(5) o'r Ddeddf Cwmnïau, byddai esemptiad y personau ymgysylltiedig ar gael (ar yr amod y bodlonir yr holl ofynion perthnasol), er enghraifft, i gontractau cyfleustodau a ddyfernir gan y canlynol:

    a. cyfleustod i'w is-ymgymeriad;
    b. cyfleustod sy'n is-ymgymeriad ei hun i gyd-is-ymgymeriad a reolir gan yr un rhiant-gyfleustod (y cyfeirir ato weithiau fel 'chwaer-gyfleustod');
    c. cyfleustod ('cyfleustod A') i is-ymgymeriad a reolir gan is-ymgymeriad cyfleustod A (y cyfeirir ato weithiau fel 'ŵyr-is-ymgymeriad').

40. Dim ond os bodlonir y prawf trosiant ym mharagraff 6(3) o Atodlen 2 y mae'r esemptiad yn gymwys. Mae'r prawf trosiant yn sicrhau na ellir camfanteisio ar yr esemptiad drwy ddarparu mai dim ond pan fo darparu nwyddau, gwasanaethau neu weithiau i'r cyfleustod ac eraill sy'n ymgysylltiedig â'r cyfleustod yn rhan sylweddol o fusnes y person ymgysylltiedig y mae'n gymwys.

41. Fel rhan o'r prawf trosiant, mae angen cyfrifo canran y trosiannau perthnasol sy'n cynnwys swm y trosiant ymgysylltiedig fel canran o gyfanswm ei drosiant.

42. Mae'r Ddeddf yn darparu y caiff awdurdod priodol wneud rheoliadau ynglŷn â sut i gyfrifo swm trosiant ymgysylltiedig a chyfanswm trosiant person. Ar ôl ymgynghori, nid yw'r darpariaethau hyn wedi cael eu cynnwys yn y Rheoliadau ac, yn lle hynny, cânt eu cynnwys yn y Rheoliadau Caffael (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru), y disgwylir iddynt ddod yn weithredol cyn i'r Ddeddf ddod i rym. Caiff y canllaw hwn ei ddiweddaru er mwyn cynnwys y rheoliadau perthnasol.

43. Mae Atodlen 2, paragraff 21 o'r Ddeddf yn esemptio contractau ar gyfer gwasanaethau cludo teithwyr cyhoeddus a ddyfernir o dan ddeddfwriaeth ar

wahân; pennir y ddeddfwriaeth yn adran 136(11) o Ddeddf Rheilffyrdd 1993. Effaith ymarferol yr esemptiad hwn yw nad yw'r rheolau ynglŷn â chaffaeliad a gwmpesir yn gymwys i gontractau a ddyfernir ar gyfer rheilffyrdd a systemau metro, a chonsesiynau rheilffyrdd a systemau metro, er eu bod yn gymwys i gontractau ar gyfer bysiau a thramiau nad ydynt yn gonsesiynau.

44. Mae Atodlen 2, paragraff 37 o'r Ddeddf yn esemptio contractau consesiwn ar gyfer gwasanaethau cludo teithwyr cyhoeddus.

45. Mae'r Atodlen 2, paragraff 31 o'r Ddeddf yn esemptio contractau cyfleustodau a ddyfernir at ddibenion gwerthu neu brydlesu i drydydd partïon, ar yr amod nad oes gan y cyfleustod hawl arbennig na llwyr-gyfyngedig i werthu'r nwyddau, y gwasanaethau na'r gweithiau a brynwyd a bod y farchnad yn agored. Y rheswm dros yr esemptiad hwn yw nad diben caffael y nwyddau, y gwasanaethau na'r gweithiau yw i'r cyfleustod gyflawni gweithgaredd cyfleustod ei hun. Nid yw'r esemptiad hwn ar gael pan fo'r cyfleustod sy'n dyfarnu'r contract yn gweithredu fel awdurdod prynu canolog.

46. Mae Atodlen 2, paragraff 32 o'r Ddeddf yn esemptio contractau cyfleustodau i brynu dŵr a ddyfernir gan gyfleustodau sy'n cyflawni gweithgaredd cyfleustod yn Atodlen 4, paragraff 3(1) (darparu neu weithredu rhwydwaith sefydlog neu gyflenwi dŵr yfed i rwydwaith sefydlog o'r fath).

47. Mae paragraff 33 o'r Ddeddf yn esemptio contractau cyfleustodau i brynu ynni, neu danwydd i gynhyrchu ynni, a ddyfernir gan gyfleustodau sy'n cyflawni gweithgaredd cyfleustod yn Atodlen 4, paragraffau 1, 2 neu 6 (nwy a gwres, trydan ac echdynnu olew a nwy a chwilio am lo neu danwyddau solet eraill neu ei echdynnu/eu hechdynnu). Dim ond i ynni neu danwydd a brynir i gynhyrchu ynni y mae'r esemptiad yn gymwys ac nid yw'n gymwys i ynni na thanwydd a brynir am resymau eraill, e.e. prynu tanwydd at ddibenion trafnidiaeth nad ydynt yn ymwneud â'r gweithgaredd cyfleustod.

48. Mae paragraff 34 o'r Ddeddf yn esemptio contractau at ddibenion y gweithgareddau a nodir yn Rhan 2 o Atodlen 4, a fyddai'n weithgareddau cyfleustod pe na baent wedi'u nodi yn Rhan 2.

## Cyflawni caffaeliadau cyfleustodau, gan gynnwys o dan farchnadoedd dynamig cyfleustodau

### Gwahardd cyflenwyr o weithdrefn dendro gystadleuol

49. Ac eithrio cyfleustodau preifat, mae'r darpariaethau yn y Ddeddf sy'n ymwneud â chyflenwyr gwaharddedig a gwaharddadwy yn gymwys i gaffaeliadau a gyflawnir gan gyfleustodau yn yr un modd ag y maent yn gymwys i awdurdodau contractio eraill.

50. Ar gyfer cyfleustodau preifat, caiff unrhyw gyfeiriad yn y Ddeddf at gyflenwyr gwaharddedig ei drin fel cyfeiriad at gyflenwyr gwaharddadwy a chaiff unrhyw gyfeiriad at gyflenwyr gwaharddadwy ei drin fel petai'n cynnwys cyflenwyr gwaharddedig (gweler adran 57(4)). Mae hyn yn golygu y gall cyfleustodau preifat drin gyflenwyr sy'n destun sail fandadol dros wahardd fel petaent yn destun sail ddisgresiynol dros wahardd.

### Gweithdrefnau tendro cystadleuol

51. Ar y cyfan, rhaid i awdurdodau contractio sy'n dyfarnu contractau cyfleustodau ddefnyddio'r un gweithdrefnau caffael ag a ddefnyddir gan awdurdodau contractio eraill. Mae adran 20 o'r Ddeddf yn nodi'r darpariaethau sy'n ymwneud â gweithdrefnau tendro cystadleuol. Gweler y canllaw ar weithdrefnau tendro cystadleuol am ragor o wybodaeth.

### Dyfarniad uniongyrchol

52. Mae adran 41 o'r Ddeddf yn caniatáu i awdurdod contractio ddyfarnu contract yn uniongyrchol heb gynnal gweithdrefn dendro gystadleuol yn gyntaf pan fo cyfiawnhad dros ddyfarniad uniongyrchol yn gymwys. Nodir y mathau o gyfiawnhad dros ddyfarniad uniongyrchol yn Atodlen 5 i'r Ddeddf. Gweler y canllaw ar ddyfarniad uniongyrchol am ragor o wybodaeth.

### Marchnadoedd dynamig cyfleustodau (gweler hefyd y canllaw ar farchnadoedd dynamig)

53. Mae adrannau 34 a 35 o'r Ddeddf yn darparu y gellir sefydlu marchnadoedd, gan gynnwys marchnadoedd dynamig cyfleustodau, ac y gellir dyfarnu contractau i gyflenwyr ar farchnadoedd dynamig yn dilyn gweithdrefn hyblyg gystadleuol.

54. I bob pwrpas, mae marchnadoedd dynamig yn rhestrau cyfredol o gyflenwyr sydd wedi bodloni'r amodau angenrheidiol i gymryd rhan mewn caffaeliadau i ddyfarnu'r mathau o gontractau a gwmpesir gan y farchnad. Rhaid bod cyflenwyr yn gallu gwneud cais ar unrhyw adeg i gael eu derbyn i'r farchnad ac os ydynt yn

llwyddiannus, cael eu derbyn cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol (gweler adran 36(6)(a) ac (c).

55. Mae marchnad ddynamig cyfleustodau yn farchnad ddynamig a sefydlir at ddiben dyfarnu contractau cyfleustodau gan gyfleustodau yn unig. Mae hyn yn golygu bod unrhyw gyfeiriad yn y Ddeddf at farchnad ddynamig yn cynnwys marchnad ddynamig cyfleustodau, oni nodir yn wahanol (ond nid yw cyfeiriadau at farchnadoedd dynamig cyfleustodau yn cynnwys marchnadoedd dynamig eraill).

56. Mae adran 35(3) o'r Ddeddf yn caniatáu i gyfleustodau ddyfarnu contractau cyfleustodau o dan farchnad ddynamig cyfleustodau a sefydlwyd gan unrhyw berson (a fyddai'n cynnwys person nad yw'n awdurdod contractio o dan y Ddeddf, e.e. cwmni preifat sy'n darparu gwasanaethau cymhwyso), ar yr amod bod y farchnad wedi'i sefydlu yn unol â'r rheolau yn y Ddeddf sy'n gymwys i farchnadoedd dynamig cyfleustodau a sefydlir gan gyfleustodau preifat.

57. Mae adran 36 o'r Ddeddf yn nodi sut y gall cyflenwyr ddod yn aelodau o farchnadoedd dynamig. Mae adran 36(1) o'r Ddeddf yn caniatáu i awdurdodau contractio bennu amodau aelodaeth y mae'n rhaid i gyflenwyr eu bodloni er mwyn cael eu derbyn i farchnad ddynamig. Rhaid i amodau aelodaeth fod yn ffordd gymesur o asesu capasiti cyfreithiol ac ariannol a gallu technegol cyflenwyr i gyflawni contractau a allai gael eu dyfarnu o dan y farchnad.

58. Mae adran 38 o'r Ddeddf yn caniatáu i awdurdodau contractio godi ffioedd ar gyflenwyr. Ar gyfer marchnadoedd dynamig cyfleustodau, dim ond mewn cysylltiad â sicrhau a chynnal aelodaeth o'r farchnad y gellir codi ffioedd. Ar gyfer marchnadoedd dynamig eraill, dim ar gyflenwyr y dyfernir contract iddynt o dan farchnad ddynamig y gellir codi ffioedd ac ni ellir eu codi am aelodaeth o farchnad o'r fath.

59. Mae adran 39 yn ymdrin â gwahanol hysbysiadau marchnad ddynamig. Mae'r rhain yn gymwys i bob awdurdod contractio, gan gynnwys cyfleustodau, ac eithrio yn achos yr hysbysiad sy'n ofynnol o dan adran 39(5) ynghylch y farchnad yn peidio â gweithredu. Yn yr achos hwn, nid yw'n ofynnol i gyfleustodau preifat gyhoeddi hysbysiad.

## Hysbysiad marchnad ddynamig cyfleustodau cymhwysol

60. Mae marchnad ddynamig cyfleustodau a sefydlir o dan hysbysiad marchnad ddynamig cyfleustodau cymhwysol yn caniatáu i gyfleustodau gyfyngu ar y cyflenwyr a all gymryd rhan mewn gweithdrefnau hyblyg cystadleuol i'r rhai sydd

wedi'u cofrestru ar y farchnad. Gall cyflenwyr wneud cais i gael eu derbyn i'r farchnad unrhyw bryd.

61. Effaith adran 40 o'r Ddeddf yw ei bod yn cyflymu caffaeliadau ac yn lleihau'r baich ar gyfleustodau sy'n caffael o dan farchnad ddynamig cyfleustodau sydd wedi'i sefydlu gan ddefnyddio hysbysiad marchnad ddynamig cyfleustodau cymhwysol.

62. Pan ddefnyddir yr hysbysiad hwn, mae'n ofynnol i gyfleustodau ddarparu hysbysiadau tendro ar gyfer caffaeliadau sydd i'w cynnal i gyflenwyr sydd eisoes ar y farchnad ddynamig cyfleustodau, neu ran briodol o'r farchnad ddynamig cyfleustodau, yn lle cyhoeddi'r hysbysiad (y mae'n ofynnol ei gyhoeddi yn achos marchnadoedd ddynamig eraill). Yn ymarferol, mae hynny'n golygu y gall cyfleustodau, er enghraifft, ddarparu'r hysbysiad tendro i gyflenwyr ar y farchnad ddynamig cyfleustodau fel rhan o'r dogfennau tendro cysylltiedig wrth i bob caffaeliad o dan y marchnadoedd dynamig cyfleustodau ddechrau.

63. Er mwyn manteisio ar yr hyblygrwydd hwn, rhaid i'r hysbysiad marchnad ddynamig cyfleustodau cymhwysol nodi mai dim ond aelodau o'r farchnad ddynamig cyfleustodau a fydd yn cael hysbysiadau tendro ac yn gorfod bodloni gofynion sylfaenol o ran gwybodaeth, a nodir yn y Rheoliadau (gweler adran 40(6) o'r Ddeddf). Mae gan aelodau newydd sy'n ymuno â'r farchnad ddynamig cyfleustodau yr hawl i gael hysbysiadau tendro yn y dyfodol.

### Amserlenni byrrach i gyfleustodau

64. Mae adrannau 54(4) a 54(5) o'r Ddeddf yn caniatáu cyfnodau byrrach ar gyfer cyflwyno tendrau mewn caffaeliadau a gyflawnir gan gyfleustodau pan fo'r cyflenwyr yn gyflenwyr a ddetholwyd ymlaen llaw. Mae cyflenwyr yn gyflenwyr a ddetholwyd ymlaen llaw pan gânt eu gwahodd i gyflwyno tendr ar ôl bodloni amodau cymryd rhan yn flaenorol fel rhan o weithdrefn dendro gystadleuol neu pan fônt ar farchnad ddynamig cyfleustodau ac yn cael eu gwahodd i gyflwyno tendr ar gyfer caffaeliad o dan y farchnad ddynamig cyfleustodau.

65. O dan adran 54 o'r Ddeddf, gall cyfleustodau gytuno ar gyfnod addas o amser â phob cyflenwr a ddetholwyd ymlaen llaw (pan na fydd unrhyw gyfnod lleiaf a ganiateir); neu, os na allant gytuno, bennu cyfnod nad yw'n llai na 10 diwrnod o leiaf.

### Fframweithiau

66. Mae adran 47 o'r Ddeddf yn nodi'r cyfnod hwyaf a ganiateir ar gyfer fframweithiau. Mae'n darparu, o dan adran 47(1)(a), mai'r cyfnod hwyaf a ganiateir ar gyfer fframwaith cyfleustodau a ddyfernir gan awdurdod cyhoeddus

neu ymgymeriad cyhoeddus (neu ar gyfer fframwaith amddiffyn a diogelwch) yw wyth mlynedd.

67. Nid oes unrhyw gyfnod hwyaf a ganiateir ar gyfer fframweithiau a ddyfernir gan gyfleustodau preifat (gweler adran 47(5)(b) o'r Ddeddf).

68. O dan adran 47(4)(b), mae'r Ddeddf yn diffinio fframwaith cyfleustodau fel fframwaith sy'n darparu ar gyfer dyfarnu contractau cyhoeddus sy'n gontractau cyfleustodau yn y dyfodol ac nad yw'n darparu ar gyfer dyfarnu unrhyw gontractau cyhoeddus eraill.

69. Y cyfnod hwyaf a ganiateir ar gyfer fframweithiau nad ydynt yn fframweithiau cyfleustodau (nac yn fframweithiau amddiffyn a diogelwch) yw pedair blynedd. Mae'r cyfnod hwy yn adlewyrchu cymhlethdodau'r marchnadoedd amddiffyn a chyfleustodau, lle mae cyfnodau hwy yn fwy priodol.

70. Ym mhob achos, gall y cyfnod hwyaf a ganiateir fod yn hwy os bydd yr awdurdod contractio o'r farn bod natur y nwyddau neu'r gwasanaethau sydd i'w darparu neu'r gweithiau sydd i'w cyflawni o dan gontractau a ddyfernir o dan y fframwaith yn golygu bod angen tymor hwy.

### Cyfnod segur

71. Mae adran 50 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau contractio gyhoeddi hysbysiad dyfarnu contract cyn ymrwymo i gontract cyhoeddus. Bydd yr hysbysiad yn cynnwys manylion am ganlyniad y caffaeliad, yn tynnu sylw'r farchnad at y ffaith y bydd yr awdurdod contractio yn ymrwymo i gontract a, lle mae un i'w gael, bydd yn dechrau'r cyfnod segur perthnasol.

72. Mae adran 51 o'r Ddeddf yn ymdrin â'r cyfnod segur. Bydd y cyfnod segur yn dechrau ar y diwrnod y cyhoeddir yr hysbysiad dyfarnu contract a'r cyfnod lleiaf ar gyfer y cyfnod segur gorfodol yw wyth diwrnod gwaith. Gall y cyfnod segur fod yn hwy os pennir cyfnod hwy yn yr hysbysiad dyfarnu contract (gweler adran 51(1) o'r Ddeddf).

73. Mae'r cyfnod segur yn saib gorfodol cyn y gall yr awdurdod contractio ymrwymo i'r contract, er bod eithriadau penodol fel y'u nodwyd yn adran 51(3) o'r Ddeddf. Mae hyn yn cynnwys pan ddyfernir contract yn uniongyrchol gan gyfleustod preifat. O dan yr amgylchiadau hyn, caiff cyfleustodau preifat ddewis defnyddio cyfnod segur gwirfoddol drwy nodi hyn yn yr hysbysiad dyfarnu contract.

74. Pan roddir cyfnod segur gwirfoddol ar waith, mae adran 51(4) o'r Ddeddf yn nodi bod yn rhaid cydymffurfio'n llawn ag ef ac na ddylid ymrwymo i'r contract cyn i'r cyfnod ddod i ben. Ni ddylai unrhyw gyfnod segur gwirfoddol fod yn llai nag wyth diwrnod gwaith yn dechrau ar y diwrnod y cyhoeddir yr hysbysiad dyfarnu contract, a gellir pennu cyfnod hwy os bydd yn briodol gwneud hynny.

## Beth yw'r prif hysbysiadau sy'n gysylltiedig â'r agwedd hon ar y Ddeddf?

75. Fel arfer, caiff ymarferion caffael cyfleustodau eu llywodraethu gan yr un gofynion o ran hysbysiadau ag ymarferion caffael eraill o dan y Ddeddf gan gynnwys, er enghraifft, cyhoeddi hysbysiad dyfarnu contract ar gyfer contractau a ddyfernir o dan fframwaith cyfleustodau.

76. Mae rheolau penodol yn gymwys pan sefydlir marchnad ddynamig cyfleustodau drwy gyfeirio at hysbysiad marchnad ddynamig cyfleustodau. Ceir esemptiadau pellach rhag darpariaethau penodol neu ofynion cyhoeddi ar gyfer cyfleustodau neu gyfleustodau preifat a nodir isod.

### Hysbysiad tendro

77. Gellir sefydlu marchnadoedd dynamig cyfleustodau gan ddefnyddio'r canlynol:

   a. hysbysiad marchnad ddynamig, yn y ffordd arferol (gweler adran 39 o'r Ddeddf); neu
   b. hysbysiad marchnad ddynamig cyfleustodau cymhwysol (gweler adran 40 o'r Ddeddf).

78. Mae adran 40(2) o'r Ddeddf yn darparu eithriad i'r ddyletswydd i gyhoeddi hysbysiad tendro fel rhan o weithdrefn agored neu weithdrefn hyblyg gystadleuol pan gaffaelir contractau o dan farchnad ddynamig cyfleustodau a sefydlwyd drwy gyfeirio at hysbysiad marchnad ddynamig cyfleustodau cymhwysol.

79. Mae adran 40(2) yn darparu bod yn rhaid i'r hysbysiad tendro gael ei ddarparu, yn lle hynny, i bob cyflenwr sy'n aelod o'r farchnad ddynamig, neu'r rhan berthnasol o'r farchnad, ac yn rhoi disgresiwn i awdurdod contractio ddarparu hysbysiad i gyflenwyr sy'n dal i gael eu hystyried i fod yn aelodau o'r farchnad ddynamig cyfleustodau, neu ran o'r farchnad.

80. Effaith adran 40(4) o'r Ddeddf yw, yn achos marchnad ddynamig cyfleustodau a sefydlwyd drwy gyfeirio at hysbysiad marchnad ddynamig cyfleustodau cymhwysol, fod yn rhaid i'r hysbysiad tendro a ddarperir i gyflenwyr, y dogfennau tendro cysylltiedig neu'r hysbysiad marchnad ddynamig cyfleustodau cymhwysol gynnwys y lefel ddigonol o wybodaeth sy'n ofynnol o dan adran 21(5) o'r Ddeddf er mwyn gwahodd cyflenwyr i gyflwyno tendr.

81. Mae adran 40(5) o'r Ddeddf yn darparu, ar gyfer marchnad ddynamig a sefydlwyd drwy gyfeirio at hysbysiad marchnad ddynamig cyfleustodau cymhwysol, nad oes rhwymedigaeth ar awdurdodau contractio i ystyried ceisiadau newydd am aelodaeth o farchnad ddynamig cyfleustodau, neu ran o farchnad, cyn gwahardd cyflenwyr neu ddiystyru tendrau am nad yw'r cyflenwr yn aelod o'r farchnad.

82. Fel y'i nodwyd yn adran 40(7) o'r Ddeddf, mae cyfeiriadau mewn rhannau eraill o'r Ddeddf at gyhoeddi hysbysiad tendro yn cynnwys darparu hysbysiad tendro i gyflenwyr ar farchnad ddynamig cyfleustodau neu gyflenwyr sy'n gwneud cais i gael eu derbyn i farchnad o'r fath.

## Hysbysiad marchnad ddynamig cyfleustodau cymhwysol

83. Mae adran 40(6) o'r Ddeddf yn darparu, yn achos hysbysiad marchnad ddynamig cyfleustodau cymhwysol, fod yn rhaid i'r hysbysiad gynnwys datganiad mai dim ond aelodau o'r farchnad a gaiff eu hysbysu o fwriad i ddyfarnu contract o dan y farchnad ddynamig cyfleustodau yn y dyfodol (am nad yw hysbysiad tendro yn cael ei gyhoeddi).

84. Mae rheoliad 26(2)(i) o'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r hysbysiad gynnwys cymaint o'r wybodaeth ag a fyddai'n cael ei chyhoeddi mewn unrhyw hysbysiad tendro o dan reoliad 22(2), i'r graddau y mae'r wybodaeth hon ar gael pan gyhoeddir yr hysbysiad marchnad ddynamig cyfleustodau cymhwysol.

85. Wrth ddarparu hysbysiad tendro i aelodau'r farchnad ddynamig, dim ond gwybodaeth nad yw wedi'i darparu eisoes yn yr hysbysiad marchnad ddynamig cyfleustodau cymhwysol y bydd angen ei chynnwys yn yr hysbysiad tendro.

## Esemptiadau rhag cyhoeddi hysbysiadau ar gyfer cyfleustodau preifat

86. Nid yw'n ofynnol i gyfleustodau preifat gyhoeddi'r canlynol:

| **Esemptiadau rhag cyhoeddi** | **Adrannau o'r Ddeddf** |
|---|---|
| Hysbysiadau ymgysylltu rhagarweiniol â'r farchnad | Diwygiwyd adran 17 o'r Ddeddf gan Reoliadau Caffael (Cymru) 2024 i ddatgymhwyso'r adran hon ar gyfer cyfleustodau preifat |
| Hysbysiadau sy'n nodi bod marchnad ddynamig wedi peidio â gweithredu | Gweler adran 39(6) o'r Ddeddf |
| Dangosyddion perfformiad allweddol | Mae adran 52(6)(b) o'r Ddeddf yn darparu nad yw'r gofyniad i bennu a chyhoeddi dangosyddion perfformiad allweddol yn gymwys i gontractau cyfleustodau a ddyfernir gan gyfleustod preifat |
| Hysbysiadau manylion contract neu Gontractau | Gweler adran 53(6)(a) o'r Ddeddf |
| Hysbysiadau terfynu caffaeliad | Gweler adran 55(3) o'r Ddeddf |
| Hysbysiadau cydymffurfio taliadau | Gweler adran 69(6)(b) o'r Ddeddf |
| Gwybodaeth am daliadau o dan gontractau cyhoeddus | Gweler adran 70(4)(a) o'r Ddeddf |
| Hysbysiadau newid contract | Mae adran 75(6)(c) o'r Ddeddf yn darparu nad yw'r gofyniad i gyhoeddi hysbysiad newid contract cyn addasu contract cyhoeddus neu gontract trosadwy (gweler adran 74(1) o'r Ddeddf) yn gymwys i gyfleustod preifat |
| Copi o gontract a addaswyd neu'r addasiad perthnasol. | Dim ond addasiadau cymhwysol y mae'n rhaid eu cyhoeddi ac nid yw addasiadau i gontractau a ddyfernir gan gyfleustodau preifat yn dod o dan y diffiniad hwn am nad oes unrhyw ofyniad i gyhoeddi hysbysiad newid contract (gweler adran 77 o'r Ddeddf) |
| Hysbysiadau terfynu contractau | Gweler adran 80(4)(a) o'r Ddeddf |
| Hysbysiadau piblinell | Gweler adran 93(6) o'r Ddeddf |

## Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024

87. Mae'r Rheoliadau yn cynnwys darpariaethau ynglŷn â chynnwys y gwahanol hysbysiadau caffael a sefydlwyd o dan y Ddeddf. Mae rhai gwahaniaethau yng nghynnwys yr hysbysiadau ar gyfer contractau cyfleustodau (a hefyd gyfleustodau preifat). Ceir manylion y gwahaniaethau hyn yn Atodiad A.

## Pa ganllawiau eraill sy'n berthnasol i'r pwnc hwn?

88. Bydd angen i gyfleustodau ddeall y Ddeddf gyfan oherwydd, heblaw am fân wahaniaethau yn y darpariaethau, mae'n gymwys yn yr un modd i gyfleustodau a chontractau cyfleustodau ag ydyw i awdurdodau contractio sy'n dyfarnu mathau eraill o gontract.